# Cofnod Penderfyniadau:
# Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

# Decision Record:
# Police and Crime Commissioner for North Wales

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

| | |
|---|---|
| | **Rhan 1/ Part 1** |
| | **Cyf/Ref: 2024.03** |
| **Teitl:** | **Title:** |
| Dim Llafur – Comisiynu Dyletswydd Trais Difrifol<br><br>GWELLIANT I HYSBYSIAD PENDERFYIAD **DM.2023.57** | Non-Labour – Commissioning Serious Violence Duty<br><br>AMENDMENT TO DECISION NOTICE **DM.2023.57** |
| **Crynodeb Gweithredol:** | **Executive Summary:** |
| Mae'r gwaith hwn wedi'i gomisiynu mewn ymateb uniongyrchol i'r gofynion a amlinellir gan y Swyddfa Gartref wrth roi grant bach i awdurdodau a gwasanaethau penodol ledled gogledd Cymru.<br><br>Bydd y gwaith hwn yn ysbrydoli cyfeiriad rhaglenni gwaith y dyfodol ar gyfer Dyletswydd Trais Difrifol 2024-25.<br><br>Rhaid i'r gyfres o brosiectau hon ddod i ben erbyn 31 Mawrth 2024.<br><br>Yn ei Hysbysiad Penderfyniad ar 28 Medi 2023, fe wnaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd amlinellu'r gwariant ar gyfer y gwaith hwn.<br><br>Ers i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud, hysbyswyd SCHTh gan CEF Berwyn ar 16 Ionawr 2024 eu bod yn methu dechrau eu prosiect oherwydd newid gofynion gan y darparwr hyfforddiant. Fe wnaethant dynnu eu cais ffurfiol am gyllid o £13,000 yn ôl. Oherwydd amserlen dynn, rhannwyd mynegiant o ddiddordeb i'r 6 Prosiect Dyfodol Heb Drais a oedd yn weddill.<br><br>Gofynnir y CHTh gymeradwyo cyllid o £13,000 a ail-ddyrannwyd i Ynys Môn er mwyn ehangu eu prosiect Dyfodol Heb Drais cyn 31/3/24. | This work has been commissioned in direct response to the requirements outlined by the Home Office in administering a small grant to specified authorities and services across north Wales.<br><br>This work will inform the future direction of work programmes for the Serious Violence Duty in 2024-25.<br><br>This suite of projects must conclude by 31 March 2024.<br><br>The Police and Crime Commissioner is his Decision Notice dated 28 September 2023 set out the expenditure for this work.<br><br>Since that decision was made the OPCC were notified by HMP Berwyn on 16 January 2024 that they are unable to commence with their Project due to change of requirements by the Training provider, they formally withdraw their request for £13,000 funding. Due to tight timescale, expression of interest distributed to the remaining 6 Future Without Violence Projects.<br><br>The PCC is asked to approve £13,000 funding reallocated to Ynys Mon to expand their Future Without Violence project to be delivered before 31/3/24. |
| **Goblygiadau:** | **Implications:** |
| Ariannol – Disgwylir i'r gwaith hwn fod yn costio £111.400 (gan eithrio TAW)<br>Y Cynllun Heddlu a Throsedd – Ystyrir cyflawni Cymdogaethau Diogelach fel y flaenoriaeth gyffredinol ac mae'n gosod y sylfaen ar gyfer y Cynllun Heddlu a Throsedd.<br>Mae'r Ddyletswydd Trais Difrifol ar gyfer awdurdodau penodol gydweithio gan sicrhau fod atal trais difrifol yn flaenoriaeth i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol.<br>Y Gymraeg – Mae hyn yn cysylltu hefo gofynion Deddf y Gymraeg | Financial – This work is anticipated to have a cost implication of £111.400(ex of VAT)<br>Police and Crime Plan –Delivering Safer Neighbourhoods is considered the overarching priority and sets the foundation for the Police and Crime Plan.<br>The Serious Violence Duty is for specified authorities to work together ensuring preventing and serious violence is a priority for Community Safety Partnerships.<br>Welsh language – This links in with the requirements of the Welsh Language Act |

## Cofnod Penderfyniadau:
## Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

## Decision Record:
## Police and Crime Commissioner for North Wales

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

| | |
|---|---|
| AD – Amherthnasol<br>Cydraddoldeb – Mae hwn yn ddarn o waith hanfodol i bob prosiect sydd wedi cael eu comisiynu yn y gymuned. | HR – N/A<br>Equality – This is an integral piece of work for all the projects that have been commissioned in the community. |
| **Prif Weithredwr a Swyddog Monitro:** | **Chief Executive and Monitoring Officer:** |
| *Rwyf yn cadarnhau fod hwn yn gais priodol i'w gyflwyno i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, ~~neu~~*<br><br>*~~Mae angen tystiolaeth bellach cyn y gellir cyfeirio'r mater hwn at y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.~~*<br><br>*Cyhoeddir Rhan 1 o'r ddogfen hon. Eithrir Rhan 2 o'r ddogfen hon ~~[rhowch eithriad priodol]~~* | *I confirm that this is an appropriate request to be submitted to the Police and Crime Commissioner, ~~or~~*<br><br>*~~Further evidence is required before this matter can be referred to the Police and Crime Commissioner.~~*<br><br>*Part 1 of this document is to be published; Part 2 of this document is considered exempt ~~[insert appropriate exemption]~~* |
| **Llofnod / Signature:** | **Dyddiad/Date** |

23 Ionawr / January 2024

| **Cymeradwyaeth a sylwadau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd** | **Approval and comments of Police and Crime Commissioner** |
|---|---|
| Rwyf yn cadarnhau fy mod wedi ystyried a oes gen i unrhyw ddiddordeb personol neu niweidiol yn y mater hwn. Rwyf yn cymryd y penderfyniad arfaethedig mewn cydymffurfiaeth ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus. Rwyf yn cymeradwyo'r cais uchod. | I confirm I have considered whether I have personal or prejudicial interest in this matter and take the proposed decision in compliance with the Nolan Principles for Conduct in Public Life. The above request has my approval. |
| Llofnod / Signature: | |

*Andy Dunbobbin*
*Comisiynydd Heddlu a Throsedd – Police and Crime Commissioner*
Dyddiad/Date: 01.02.2024

Dyletswydd Trais Difrifol 2023-2024 – Grantiau dim llafur

| Derbynnydd | Cyfanswm | Diben |
|---|---|---|
| Youth Shedz | £12,186.00 | Menter wedi'i llunio er mwyn ymdrin a lliniaru risg gweithgarwch troseddol ymysg pobl ifanc o fewn eu cymuned. |
| Doctoriaid Stryd | £3,760.00 | Mae'r prosiect ar gyfer pobl ifanc 11-18 oed sydd mewn perygl o gael eu heffeithio gan drais stryd o fewn ardal Sir y Fflint. |
| CEF Berwyn | £13,000.00~~£13.000.00~~ **TYNNWYD CYLLID YN ÔL A'I AIL-DDOSBARTHU.**<br><br>*Tynnwyd cyllid y prosiect yn ôl yn ffurfiol ar 16/1/2024. Dyrannwyd y cyllid i Wasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn.* | Bydd y prosiect yn anelu hyfforddi carcharorion er mwyn cyflawni tair lefel o ymyrraeth i'w cyfoedion. Maent wedi'u llunio er mwyn eu cynorthwyo nhw ddeall eu problemau ac edrych ar eu hopsiynau drwy hyfforddiant mewn cyfryngu.<br><br>*16/1/2024 Hysbyswyd SCHTh gan CEF Berwyn na all Prosiect Dyfodol Heb Drais ddechrau oherwydd newidiadau yn y memorandwm dealltwriaeth rhwng CEF Berwyn a'r Darparwr Hyfforddiant. Tynnodd CEF Berwyn yn ôl o'r broses ar 16/1/2024.* |
| PLAN UK | £24,997.50 | Cynnal cyfres o ddigwyddiadau a gweithgareddau yng Ngogledd Cymru hefo siaradwyr ysbrydoledig, gweithdai a thrafodaeth gydweithredol ar gyfer dynion ifanc a bechgyn a'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu cynorthwyo nhw. Mae hyn er mwyn creu gweledigaeth ar gyfer Cymru heb Drais ar Sail Rhywedd yn y dyfodol. |
| Gwasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint | £17,400.00 | Bydd y prosiect yn cynorthwyo Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint wrth ddatblygu |

| | | |
|---|---|---|
| | | partneriaeth hefo Empire Fighting Chance er mwyn hyfforddi a sefydlu a chyflwyno'r Rhaglen Box Champion. Mae'r Rhaglen wedi'i llunio er mwyn rhoi'r sgiliau a'r ysbrydoliaeth angenrheidiol i bobl ifanc wneud newidiadau cadarnhaol yn eu bywydau. |
| Gwasanaeth Ieuenctid Conwy | £7,500.00 | Prosiect aml-asiantaeth sy'n cynnwys Gwasanaeth Ieuenctid Conwy, Canolfan Teuluoedd Conwy a Chyfiawnder Ieuenctid er mwyn rhoi cymorth i bobl ifanc a'u teuluoedd fel rhan o ymdriniaeth drawma. |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn | £32,557.00 cyllid gwreiddiol<br>*Rhoddwyd £13,000 ychwanegol oherwydd bod prosiect CEF Berwyn wedi tynnu'n ôl ar 16/1/24.*<br><br>Cyfanswm cyllid £45,557.00 | Ymdriniaeth rhwng asiantaethau gan weithio hefo ystod o bartneriaethau. Mae hyn er mwyn mynd â'r ymdriniaeth drawma i'r lefel nesaf drwy DPP swyddogion ac ymyriadau ar gyfer pobl ifanc sy'n dod yn bryder cynyddol o fewn eu cymunedau oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd ieuenctid a thensiynau ymysg cyfoedion.<br><br>*Byddai'r arian ychwanegol yn cael eu defnyddio gan Wasanaethau Addysg / Ieuenctid a Gwasanaethau Plant Arbenigol CSYM, gan weithio hefo'r tîm Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid. Cyflawnir 2 x sesiwn Mind Mechanics ychwanegol. Bydd un ar gyfer ysgol uwchradd a'r llall ar gyfer plant ysgol gynradd. Byddai'r sesiynau hyn yn cael eu cyflawni ym mis Chwefror a mis Mawrth 2024.* |

2023-2024 Serious Violence Duty -Non labour Grants

| Recipient | Total Amount | Purpose |
|---|---|---|
| Youth Shedz | £12.186.00 | An initiative designed to address and mitigate the risk of criminal activity among young people within their community. |
| Street Doctors | £3.760.00 | The project is for young people aged 11-18 who are at risk of being impacted by street violence within the Flintshire area. |
| HMP Berwyn | ~~£13.000.00~~ **FUNDING WITHDRAWN AND REALLOCATED**.<br>*Project Funding formally withdrawn 16/1/2024. Funding allocated to Isle of Anglesey Social Services.* | The project will aim to train prisoners to deliver three levels of intervention to their peers, designed to help them understand their issues and explore their options through training in mediation.<br><br>*16/1/2024 OPCC notified by HMP Berwyn that the Future Without Violence Project cannot commence due to changes in the memorandum of understanding between HMP Berwyn and the Training Provider. HMP Berwyn formally withdrawn from process 16/1/2024.* |
| PLAN UK | £24.997.50 | To run a series of events and activities in North Wales with inspirational speakers, workshops and collaborative discussion for both young men & boys and the professionals that support them, to create a vision for a future Wales without Gender Based Violence. |
| Flintshire Youth Service | £17.400.00 | The project will support the Flintshire Youth Justice Service in developing a partnership with Empire Fighting Chance to train and set up and deliver the Box Champion Programme designed |

| | | |
|---|---|---|
| | | to empower young people with the skills and inspiration needed to make positive changes in their lives. |
| Conwy Youth Service | £7.500.00 | A multi-agency project which involves Conwy Youth Service, Conwy Family Centre and Youth Justice to provide support for young people and their families as part of the trauma informed approach. |
| Isle of Anglesey Social Services | £32.557.00 original funding.<br>*Additional £13,000 additional funding awarded due to withdrawal of HMP Berwyn project 16/1/24.*<br>Total funding £45,557.00 | A multi-agency approach working with a range of partners to take the trauma informed approach to the next level through officer CPD and interventions for young people that are becoming a growing concern within their communities through youth-related ASB, crime and peer tensions.<br><br>*The additional money would be used by* [illegible] *to deliver an additional x 2 Mind Mechanics sessions, one of which will be for a High School and the other for Primary School children. These sessions would be delivered in February and March 2024.* |